**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

14 Mehefin 2017

Annwyl Kirsty

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg heddiw am sesiwn graffu gyffredinol. Roedd hi'n sesiwn ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor.

Yn ystod y sesiwn, holwyd cwestiwn ynglŷn â nifer yr unigolion y disgwylir iddynt gael budd o'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol. Gwnaethoch gynnig darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig a byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud hynny.

Hefyd, fel y nodais ar ddiwedd y sesiwn, roedd nifer o gwestiynau ynghylch cyllid na chawsom amser i'w trafod, ac fe wnaethoch gytuno i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r rhain. Rwyf wedi atodi'r cwestiynau ychwanegol yn Atodiad A, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb maes o law.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**Atodiad A**

## Dyraniadau'r gyllideb

*Cyllideb Derfynol 2017-18*

- Rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol yn 2017-18, cyfanswm y cynnydd net i'r gyllideb adnoddau addysg oedd £5.436 miliwn ar draws sawl cam gweithredu yn y gyllideb. Yn ôl y nodyn esboniadol roedd £3.2 miliwn ychwanegol 'er mwyn cefnogi ein huchelgais o sicrhau bod gan bawb gyfle i gyflawni eu llawn botensial'. Beth yw'r berthynas rhwng y ddau ffigur? Beth y mae'r £3.2 miliwn yn ei gynnwys?

- A all Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth o ran sut y mae'r £5.436 miliwn a ddyranwyd i'r gyllideb adnoddau addysg yn cael ei ddefnyddio?

*Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18*

- A all Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau pellach wedi'u cynllunio, ers iddi gyflwyno ei phapur i'r Pwyllgor, o ran dyraniadau'r gyllideb yn y prif grŵp gwariant addysg ar gyfer y Gyllideb Atodol Gyntaf.

- Beth oedd y rhesymau dros drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyngor gyrfaoedd a noddi Gyrfa Cymru o bortffolios Ysgrifennydd y Cabinet ac Alun Davies i bortffolios Ken Skates a Julie James? A oes enghreifftiau eraill o orgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau Alun Davies a Julie James lle y gallai fod ystyriaethau tebyg? *(Er enghraifft, Alun Davies sy'n gyfrifol am gymwysterau galwedigaethol tra bod polisi sgiliau a phrentisiaethau dan ofal Julie James.)*